# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Arthur Jenkins**

**Cartref Preswyl Arthur Jenkins**
**Heol Coed Cae Blaenafon**
**Pont-y-pŵl**
**NP4 9PP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

25/06/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Arthur Jenkins

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cymdeithas Tai Hafod Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 29 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 07 Mehefin 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Rhoddodd y bobl yng nghartref Arthur Jenkins adborth cadarnhaol ar y gofal a'r cymorth a ddarperir. Caiff y bobl eu trin â pharch gan dîm cyfarwydd o staff. Mae rhaglen o weithgareddau sydd wedi'i gwella yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau addas ac ystyrlon i'r bobl i'w cadw'n brysur. Caiff cynlluniau personol eu hysgrifennu o safbwynt yr unigolyn yn bennaf ac maent yn cynnwys manylion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Caiff anwyliaid y bobl eu cynnwys yn eu gofal a chânt eu hannog i ymweld â nhw mor aml â phosibl.

Er y caiff gofal a chymorth eu darparu mewn ffordd urddasol, ni chânt eu darparu yn unol â chynlluniau personol ac anghenion unigol y bobl bob amser. Ni cheisir mewnbwn clinigol yn brydlon bob amser pan fydd iechyd y bobl yn dirywio. Mae'r prosesau rheoli meddyginiaeth yn wael ac nid yw'r bobl yn cael eu meddyginiaeth yn unol â'u presgripsiynau bob amser. O bryd i'w gilydd, mae nifer annigonol o staff wedi peri risg i'r bobl.

Nid yw darparwr y gwasanaeth yn sicrhau'n gyson y caiff y gwasanaeth ei ddarparu â gofal, cymhwysedd a sgìl digonol, gan roi sylw i'r Datganiad o Ddiben. Nid yw'r trefniadau llywodraethu a sicrhau ansawdd yn gadarn, sy'n golygu nad yw'r gwasanaeth a ddarperir yn cael ei oruchwylio'n ddigonol. Nid yw'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio'r broses o reoli'r gwasanaeth yn effeithiol. Mae'r diffyg goruchwyliaeth hwn wedi effeithio ar lesiant y bobl. Felly, rydym wedi cyhoeddi sawl hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ac rydym yn disgwyl i ddarparwr y gwasanaeth weithredu ar unwaith i ymdrin â'r materion hyn.

Gwnaeth darparwr y gwasanaeth ein sicrhau y byddai camau'n cael eu cymryd ar unwaith i wella prosesau i oruchwylio'r gwasanaeth a ddarperir ac i liniaru unrhyw risgiau pellach i'r bobl.

## Llesiant

Mae gan y bobl rywfaint o reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae Canllaw i Ddefnyddwyr y Gwasanaeth hawdd ei ddarllen yn amlinellu'r hyn y gall y bobl ei ddisgwyl gan y gwasanaeth a ddarperir a pha gyfleoedd sydd ar gael iddynt i'w helpu i sicrhau eu llesiant. Gall y bobl bersonoli eu hardaloedd byw. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u haddurno gan ddefnyddio lliwiau ac arddulliau o ddewis y bobl. Caiff manion personol, ffotograffau a gwaith celf y bobl eu harddangos er mwyn gwneud eu hystafelloedd gwely yn fwy cartrefol. Nodir dewisiadau iaith y bobl yn unol â'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg, a gallant gael cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg os byddant yn dymuno.

Ar y cyfan, gall y bobl wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Mae rhaglen o weithgareddau sydd wedi'i gwella yn cynnig gweithgareddau hamdden amrywiol ac addas. Mae gweithgareddau diweddar wedi cynnwys ymweliadau gan blant ysgol lleol, nosweithiau â thema, cwisiau a difyrwyr yn ymweld â'r gwasanaeth, a dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau hyn. Caiff y bobl eu cefnogi ar deithiau dydd o gwmpas y gymuned leol yn rheolaidd, sy'n hyrwyddo presenoldeb cymunedol. Ar ddiwrnodau ein harolygiad, gwelsom y bobl yn cymryd rhan yn y gweithgareddau sydd ar gael ac yn eu mwynhau. Roedd hyn yn cynnwys gemau yn y lolfa, y gwnaeth y rhan fwyaf o'r bobl yn y gwasanaeth ymuno ynddynt.

Caiff cydberthnasau personol a theuluol eu hannog. Anogir perthnasau a ffrindiau'r bobl i ymweld â'r gwasanaeth unrhyw bryd. Mae'r rheolwr a'r tîm o staff yn gyfarwydd ag anwyliaid y bobl ac yn ymgysylltu â nhw mewn ffordd gadarnhaol.

Nid yw'r bobl yn byw mewn cartref sy'n eu cefnogi i sicrhau eu llesiant yn gyson. Rhoddodd y bobl adborth cadarnhaol ar y gwasanaeth a ddarperir a'r gweithwyr gofal sy'n eu cefnogi. Wrth drafod y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael, dywedodd y bobl wrthym eu bod yn *'Happy'* a *'Satisfied'* . Fodd bynnag, nid oes nifer diogel o staff yn y gwasanaeth bob amser, sy'n golygu bod risg y gallai'r bobl beidio â chael y feddyginiaeth ofynnol neu ofal prydlon pan fydd ei angen arnynt.

Ni chaiff y bobl eu cefnogi i gael y gofal a'r cymorth cywir bob amser, mewn modd amserol, i gadw'n iach ac yn hapus. Ni chaiff gofal rhai o'r bobl ei ddarparu yn unol â'u cynlluniau personol er mwyn sicrhau eu llesiant. Ni cheisir mewnbwn clinigol a phroffesiynol yn brydlon bob amser pan fydd iechyd y bobl yn dirywio. Ni chaiff meddyginiaeth ei rhoi yn unol â phresgripsiwn y bobl bob amser. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar lesiant corfforol ac emosiynol rhai o'r bobl. Gwnaeth darparwr y gwasanaeth ein sicrhau y caiff camau eu cymryd ar unwaith i liniaru unrhyw risgiau pellach i lesiant a diogelwch y bobl.

## Gofal a Chymorth

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch gan dîm cyfarwydd a sefydlog o staff. Mae'r staff gofal yn rhyngweithio â'r bobl mewn modd ystyrlon. Mae'r bobl wedi meithrin cydberthnasau cryf a chadarnhaol â'u gweithwyr gofal. Dywedodd un person fod y gweithwyr gofal yn '*Nice'*, a dywedodd person arall wrthym fod y gofal a ddarperir yn*'Very satisfactory.'* Caiff y bobl gymorth gyda'u datblygiad personol ac mae amrywiaeth o weithgareddau a chyfleoedd ar gael iddynt i'w gwneud yn hapus a gwella eu llesiant. Mae gan rai o'r bobl ganlyniadau personol ystyrlon, y mae'r gweithwyr gofal yn eu cefnogi i'w cyflawni. Caiff y canlyniadau hyn eu trin fel nodau i'r bobl weithio tuag atynt i'w helpu i gyflawni eu potensial llawn a gwneud y pethau sydd o bwys iddynt. Nid oes gan rai o'r bobl ganlyniadau personol ystyrlon, a all effeithio ar eu llesiant.

Ar y cyfan, mae cynlluniau personol y bobl yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae hyn yn golygu eu bod wedi'u hysgrifennu o safbwynt yr unigolyn. Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau personol yn cynnwys lefel dda o hanes cymdeithasol ac maent yn amlinellu hoff bethau a chas bethau allweddol y bobl, sy'n golygu bod gan y gweithwyr gofal ddigon o wybodaeth i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Gwelsom y gweithwyr gofal yn defnyddio'r wybodaeth hon i sgwrsio â'r bobl am bynciau sydd o ddiddordeb iddynt. Roedd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant emosiynol y bobl.

Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau y caiff gofal a chymorth eu darparu mewn ffordd sy'n diogelu, yn hyrwyddo ac yn cynnal iechyd a diogelwch unigolion. Nid yw cynlluniau personol y bobl yn cynnwys digon o wybodaeth bob amser er mwyn i'r gweithwyr gofal ddarparu gofal i'w helpu i gyflawni llesiant corfforol. Ni chaiff gwybodaeth bwysig am anghenion iechyd unigolion ei chynnwys yn y cynlluniau personol bob amser. Mae hyn yn golygu nad yw'r gweithwyr gofal bob amser yn gallu cael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen i ddarparu gofal diogel ac effeithiol ac efallai na fyddant yn gwybod sut i ymateb os bydd anghenion iechyd yn newid. Ni chaiff gofal y bobl ei ddarparu'n unol â'u cynlluniau personol a'u hanghenion gofal unigol yn gyson, sy'n golygu eu bod yn wynebu risg o niwed a salwch. Ni cheisir cyngor meddygol a chymorth proffesiynol yn brydlon bob amser pan fydd iechyd y bobl yn dirywio. Gwnaethom nodi sawl achos lle roedd dulliau anniogel o ddarparu gofal wedi cael effaith sylweddol ar lesiant corfforol ac emosiynol y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth weithredu ar unwaith i fynd i'r afael â hyn.

Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi rhoi trefniadau cadarn ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau'r bobl yn cael eu storio a'u rhoi'n ddiogel. Nid yw rhai gweithwyr gofal yn cael y gwiriadau cymhwysedd priodol sy'n eu galluogi i roi meddyginiaeth yn ddiogel. Gwnaethom nodi anghysondebau sylweddol mewn cyfrifon meddyginiaeth dyddiol sy'n dangos nad yw'r bobl wedi cael meddyginiaeth yn unol â'u presgripsiynau. Mae prosesau rheoli meddyginiaeth gwael wedi cael effaith ar lesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth weithredu ar unwaith i fynd i'r afael â hyn.

Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi darparu gwasanaeth sy'n sicrhau bod y bobl yn cael eu hamddiffyn rhag esgeulustod a thriniaeth amhriodol. Er na wnaethom nodi unrhyw bryderon mewn perthynas â niwed neu gamdriniaeth fwriadol, nodwyd gennym fod y bobl wedi wynebu risg ddiangen o esgeulustod. Ni chaiff gofal rhai o'r bobl ei ddarparu yn unol â'u hanghenion unigol ac ni chaiff eu meddyginiaeth ei rhoi yn unol â'u presgripsiwn, sydd wedi cael effaith sylweddol ar eu llesiant. O ganlyniad i nifer anniogel o staff dros nos, mae'n bosibl na all y bobl gael gafael ar feddyginiaeth neu ofal prydlon yn ôl y gofyn. Nid yw rhai digwyddiadau diogelu wedi cael eu cofnodi neu ni roddwyd gwybod amdanynt yn unol â phrotocolau diogelu. Nid yw rhai o'r gweithwyr gofal wedi cwblhau hyfforddiant ar Ddiogelu Oedolion Agored i Niwed, sy'n golygu na fyddant o reidrwydd yn deall eu cyfrifoldeb i ddiogelu oedolion agored i niwed. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Gwnaeth darparwr y gwasanaeth ein sicrhau y caiff camau eu cymryd ar unwaith i liniaru unrhyw risgiau pellach i'r bobl.

## Yr Amgylchedd

Ni chafodd y thema hon ei hystyried yn llawn, ond gwnaethom nodi bod darparwr y gwasanaeth wedi darparu amgylchedd sy'n addas i helpu'r bobl i sicrhau eu llesiant ar y cyfan. Darperir cyfleusterau a chyfarpar priodol fel y gall y bobl gael cymorth gyda'u hanghenion unigol. Roedd y gwasanaeth yn ymddangos yn lân ac yn daclus ar ddiwrnodau ein harolygiad. Mae ystafelloedd gwely'r bobl wedi'u personoli ac yn cynnig digon o le. Mae'r ardaloedd cymunedol yn cynnig lle i'r bobl gymdeithasu. Mae'r ardaloedd bwyta yn lân ac yn daclus ar gyfer amseroedd bwyd. Mae bwydlen yn yr ystafell fwyta sy'n dangos bwydlen y dydd, gan gynnwys opsiynau amgen. Mae'r ardaloedd allanol yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae'r gwasanaeth yn cyflogi technegydd cynnal a chadw parhaol er mwyn goruchwylio materion iechyd a diogelwch cyffredinol.  Ar ddiwrnodau ein harolygiad, gwelsom y technegydd yn profi'r larwm tân ac yn cynnal archwiliadau iechyd a diogelwch.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi rhoi trefniadau llywodraethu cadarn ar waith er mwyn helpu i redeg y gwasanaeth yn ddidrafferth ac yn effeithiol  Ni chaiff gofal a chymorth o ansawdd uchel eu darparu'n gyson i'r bobl er mwyn eu galluogi i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl a sicrhau eu llesiant. Er bod Datganiad o Ddiben y gwasanaeth yn gynhwysfawr a'r polisïau mewnol yn gadarn, ni chaiff gofal ei ddarparu'n unol â'r rhain bob amser. Mae hyn wedi cael effaith ar iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth.  Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Nid yw'r tîm rheoli yn goruchwylio'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg o ddydd i ddydd yn ddigonol. Nid yw'r rheolwr yn defnyddio dulliau sicrhau ansawdd effeithiol er mwyn goruchwylio'r gwasanaeth a ddarperir yn effeithiol. O ganlyniad i hyn, mae iechyd rhai o'r bobl wedi dirywio heb i'r gwasanaeth sylwi. Mae'r prosesau rheoli meddyginiaeth yn wael. Nid oedd yr archwiliadau meddyginiaeth presennol wedi nodi pryderon sylweddol a nodwyd gennym yn ystod ein harolygiad. Nid yw rhai digwyddiadau o natur ddiogelu wedi cael eu trin yn unol â phrotocolau diogelu priodol.

Nid oes gan yr Unigolyn Cyfrifol brosesau cadarn er mwyn goruchwylio'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau ei ymweliadau rheoliadol ac yn cyflwyno adroddiadau yn unol â'r rheoliadau. Mae cofnodion wedi'u gwella o ymweliadau'r Unigolyn Cyfrifol yn gynhwysfawr ac yn dangos y gofynnir am adborth gan y bobl, y gweithwyr gofal a pherthnasau. Caiff rhai archwiliadau, megis archwiliadau cynllunio gofal a meddyginiaeth, eu cwblhau fel rhan o ymweliadau rheoliadol yr Unigolyn Cyfrifol, ond nid yw'r rhain wedi nodi'r pryderon sylweddol a nodwyd gennym yn ein harolygiad. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Nid yw'r bobl yn cael eu cefnogi'n gyson gan nifer priodol o staff sydd â'r cymwyseddau cywir i ddarparu lefel y gofal sydd ei hangen i'w helpu i gyflawni canlyniadau personol a sicrhau eu llesiant. Mynegodd y gweithwyr gofal bryderon nad oes digon o staff yn y gwasanaeth. O ganlyniad i nifer annigonol o staff dros nos, mae'r bobl wedi wynebu risg o beidio â chael gofal prydlon neu'r feddyginiaeth ofynnol weithiau, os oes angen. Nid yw'r gweithwyr gofal yn cael eu cefnogi na'u datblygu'n briodol bob amser. Mae'r staff yn cydymffurfio â'r gofynion o ran hyfforddiant ar y cyfan, ond mae cydymffurfiaeth sesiynau goruchwylio'r gweithwyr gofal yn wael o hyd. Mae'r sesiynau goruchwylio yn sylfaenol o ran ansawdd. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella o hyd, ac rydym yn disgwyl i ddarparwr y gwasanaeth weithredu.

Rhoddodd y gweithwyr gofal adborth cymysg ar eu cyflogaeth. Cafwyd adborth cadarnhaol gan rai o'r gweithwyr gofal. Dywedodd un o'r gweithwyr gofal fod y gwasanaeth yn gartrefol, a nododd *'Have only positive things to say'*. Dywedodd gweithwyr gofal eraill wrthym nad oeddent yn fodlon ar yr amodau gwaith a'u bod yn teimlo bod ansawdd y gwasanaeth wedi

dirywio. Dywedodd un gweithiwr gofal fod ei rôl yn *'Stressful'.* Dywedodd gweithiwr gofal arall wrthym nad yw'n teimlo bod y tîm rheoli yn ei gefnogi.

Gwnaeth darparwr y gwasanaeth ein sicrhau y caiff camau eu cymryd ar unwaith i roi trefniadau llywodraethu a sicrhau ansawdd mwy cadarn ar waith, a fydd yn golygu y gellir goruchwylio'r gwasanaeth a ddarperir yn well.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 58 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi rhoi trefniadau cadarn ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau unigolion yn cael eu storio a'u rhoi'n ddiogel. | Newydd |
| 26 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi rhoi mesurau a phrotocolau cadarn ar waith i sicrhau y caiff y bobl eu diogelu rhag niwed ac esgeulustod. | Newydd |
| 6 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau y caiff y gwasanaeth ei ddarparu â gofal, cymhwysedd a sgìl digonol, fel y gall y bobl sicrhau eu llesiant. | Newydd |
| 21 | Ni all y bobl fod yn siŵr y byddant yn cael gofal a chymorth cyson. | Heb Gyflawni |

| | | |
|---|---|---|
| 66 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol oruchwylio'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli er mwyn sicrhau bod y bobl yn ddiogel ac yn sicrhau eu llesiant. | Heb Gyflawni |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 36 | Nid yw'r gweithwyr gofal yn cael eu goruchwylio mor aml ag sy'n ofynnol bob amser er mwyn bodloni cydymffurfiaeth rheoleiddio. | Heb Gyflawni |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 29/07/2024